Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

10 Mawrth 2026

Dr Ioan Matthews
Prif Weithredwr
Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Annwyl Ioan,

**Ymateb Medr i ail nodyn cyngor y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

Diolch am rannu nodyn cyngor manwl ac ystyriol y Coleg ar reoleiddio darparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant ym mis Awst. Daeth y cyngor hwn ar adeg allweddol yn ein gwaith i ddatblygu system reoleiddio newydd ar gyfer addysg drydyddol yng Nghymru, cyn ail gam ein hymgynghoriad, ac mae wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol wrth lunio Amod y Gymraeg ac agweddau eraill ar y fframwaith sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Yn unol ag Adran 9 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 a'n Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, mae'n bleser gennyf amgáu ymateb sydd wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd Medr i'r nodyn cyngor hwn (Atodiad A). Mae'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau bellach wedi'i hadlewyrchu yn y dogfennau rheoleiddio drafft a gyhoeddwyd er mwyn ymgynghori arnynt ar 22 Hydref 2025, ac a drafodwyd gyda swyddogion y Coleg cyn hynny. Byddwn yn ymdrin â nifer bach o bwyntiau drwy'r gwaith a wnawn ar ôl yr ymgynghoriad a thrwy'r broses o ddatblygu'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg Drydyddol. Rydym yn credu'n gryf mai proses barhaus yw datblygu ein fframwaith rheoleiddio, a bydd rhai meysydd a godwyd yn y nodyn cyngor yn sail ar gyfer ein hystyriaethau dros y tymor canolig i'r tymor hir.

Hoffwn ddiolch i'r Coleg unwaith eto am barhau i ymgysylltu'n gadarnhaol â ni. Gwn fod swyddogion Medr wedi gwerthfawrogi natur gydweithredol y trafodaethau hyn, a'u bod yn teimlo eu bod yn gynhyrchiol ac yn adeiladol. Gobeithio iddynt fod yn ddefnyddiol i gydweithwyr yn y Coleg hefyd.

Edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio â'n gilydd i hyrwyddo'r Gymraeg ac addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

Yn gywir,

**James Owen**
Prif Swyddog Gweithredol, Medr

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Any correspondence in Welsh will be answered in Welsh, and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff CF10 4BZ

www.medr.cymru

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## Atodiad A. Penderfyniadau Medr mewn ymateb i nodyn cyngor y Coleg

### Amcan a Dull Rheoleiddio

**Pwynt Cyngor 1**: Cryfhau geiriad amcan rheoleiddio Medr ar gyfer y Gymraeg

Mewn perthynas â nod strategol Medr i *hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, gan gynyddu'r galw am, a chyfranogiad mewn, dysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg*, nododd y Coleg y byddai'n fuddiol pe bai geiriad yr amcan rheoleiddio yn y ddogfen Dull Rheoleiddio a Phwerau Ymyrryd yn fwy cyson â geiriad Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Deddf 2022).

**Penderfyniad:** Cytuno

Roedd Medr yn cytuno y dylid cryfhau'r geiriad hwn. Cytunwyd ar y geiriad ychwanegol canlynol, a chafodd ei gynnwys yn y drafft diwygiedig o'r Fframwaith Rheoleiddio:

***Amcan rheoleiddio:*** *Mae mwy o fynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o ansawdd, gydag anogaeth a chymorth i gyfranogi ynddi, yn helpu i ddiogelu'r Gymraeg ac yn ategu dyhead Llywodraeth Cymru am filiwn o siaradwyr Cymraeg.*

**Pwynt Cyngor 2**: Cryfhau geiriad dull rheoleiddio Medr ar gyfer y Gymraeg

Mewn perthynas â nod strategol Medr i *hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, gan gynyddu'r galw am, a chyfranogiad mewn, dysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg*, nododd y Coleg y byddai'n fuddiol pe bai geiriad y dull rheoleiddio yn y ddogfen Dull Rheoleiddio a Phwerau Ymyrryd yn fwy cyson â geiriad Deddf 2022.

**Penderfyniad:** Cytuno

Roedd Medr yn cytuno y dylid cryfhau'r geiriad hwn. Cytunwyd ar y geiriad ychwanegol canlynol, a chafodd ei gynnwys ar dudalen 5 y drafft diwygiedig o'r Fframwaith Rheoleiddio:

***Dull rheoleiddio:*** *Bydd Medr yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu cynllun cenedlaethol ar gyfer addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg. Gan ddefnyddio'r cynllun hwnnw fel sail, byddwn yn rheoleiddio mewn ffordd sy'n herio darparwyr i ehangu a gwella darpariaeth, o ran ei hansawdd a'i hygyrchedd, i annog galw a chyfranogaeth yn yr darparieth, gan hefyd hybu mwy o ddefnydd o'r iaith ar draws pob amgylchedd trydyddol.*

**Pwynt Cyngor 3:** Mabwysiadu model ymgysylltu cyfannol ac agos sydd wedi'i deilwra ar gyfer pob darparwr.

**Penderfyniad:** Cytuno'n rhannol

Ar ôl ymgynghori'n helaeth â'r sector, mae Medr wedi datblygu model monitro cyfunol sy'n manteisio ar gryfderau'r ddau opsiwn gwreiddiol a gyflwynwyd yn ein hymgynghoriad cyntaf yn 2025. Y model hwn yw'r sail ar gyfer y ffordd y byddwn yn asesu cydymffurfiaeth â'r Amodau Cofrestru a Chyllid, a'r ffordd y byddwn yn ymgysylltu â darparwyr i adnabod risg, cefnogi gwelliant, a diogelu dysgwyr a budd y cyhoedd. Mae'r dull hwn yn mynd ati'n fwriadol i gyfuno goruchwyliaeth a arweinir gan sicrwydd ag ymgysylltu ehangach.

## <u>Amod: Gwybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Fyfyrwyr</u>

**Pwynt Cyngor 4:** Mae'r Coleg yn cynghori Medr i roi ystyriaeth bellach i gyflwyno gofyniad penodol i ddarparwyr roi gwybodaeth glir i ddarpar ddysgwyr am natur ieithyddol eu darpariaeth.

**Penderfyniad:** Cytuno'n rhannol

Mae Medr yn cytuno ei bod yn bwysig sicrhau bod dysgwyr yn cael yr wybodaeth a'r cymorth sy'n angenrheidiol i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch yr iaith yr hoffent astudio ynddi, a dyma pam mae Medr wedi ymgorffori hyn yn Amod y Gymraeg.

O ran cynnwys gofynion penodol yn yr Amod ynghylch Darparu Gwybodaeth i Ddarpar Fyfyrwyr, teimlid y byddai hyn yn beth rhy benodol i'w gynnwys yn yr amod hwn, gan mai cydymffurfiaeth â gofynion yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) yn benodol oedd mewn golwg wrth ysgrifennu'r ddogfen hon.

Mae Medr yn bwriadu ailystyried hyn ar ôl yr ymgynghoriad ac ystyried a ellid cryfhau'r gofyniad hwn fel y'i nodir yn Amod y Gymraeg ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddai angen ystyried sut y gall gofynion o'r fath ryngweithio â'r amgylchedd rheoleiddio ehangach (e.e. Safonau'r Gymraeg) a chyfrifoldebau Medr mewn perthynas ag ymreolaeth sefydliadol.

## <u>Fframwaith Ansawdd</u>

**Pwynt Cyngor 5:** Mae'r Coleg yn cynghori Medr i ystyried sut y gellir sicrhau bod modd i ffynonellau data sy'n gysylltiedig ag ansawdd gael eu rhannu fesul iaith.

**Penderfyniad**: Cytuno'n rhannol

Teimlid bod y geiriad a gynigiodd y Coleg yn rhy benodol i'w gynnwys yn nogfen y Fframwaith Ansawdd, yn enwedig o ystyried yr heriau parhaus mewn perthynas â data ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae Medr yn cytuno y bydd angen i unrhyw asesiad o'r deilliannau i ddysgwyr gynnwys y rhai sy'n astudio'n rhannol neu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â gwahanol grwpiau o ddysgwyr, gan gynnwys dysgwyr â nodweddion gwarchodedig, lle bo data digonol ar gael. Mae Medr yn ystyried mesurau perfformiad darparwyr ar hyn o bryd ac mae ystyriaethau sy'n ymwneud â darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn rhan weithredol o'r gwaith hwn.

**Amod: Y Gymraeg**

**Pwynt Cyngor 6:** Dylai Amod y Gymraeg nodi bod disgwyl i bob darparwr fod â strategaeth ar gyfer y Gymraeg y cytunwyd arni gan ei gorff llywodraethu.

**Pwynt Cyngor 6:** Dylai Amod y Gymraeg nodi sut y bydd disgwyl i ddarparwyr ddangos eu bod yn symud yn gyson tuag at eu targedau.

**Pwynt Cyngor 8:** Mae'r Coleg yn cynghori Medr i ystyried defnyddio'r amod rheoleiddio ar gyfer y Gymraeg i osod disgwyliad ar ddarparwyr perthnasol i gyfrannu at hyn.

**Pwynt Cyngor 9:** Mae'r Coleg yn cynghori Medr i ystyried defnyddio'r amod rheoleiddio i osod disgwyliad ar ddarparwyr perthnasol i gyfrannu at sicrhau bod modd i bob dysgwr astudio'r Gymraeg fel pwnc.

**Pwynt Cyngor 10:** Mae'r Coleg yn cynghori Medr i ystyried defnyddio'r amod rheoleiddio ar gyfer y Gymraeg i osod disgwyliad i ddarparwyr perthnasol i gyfrannu at [wneud gwaith ymchwil ac arloesi a gweithgareddau sy'n ymwneud â gwaith ymchwil ac arloesi drwy gyfrwng y Gymraeg].

**Penderfyniadau**: Cytuno'n rhannol

Mae swyddogion Medr wedi cydweithio â'r Coleg wrth lunio'r agwedd hon ar Amod y Gymraeg. Noda Medr yn benodol sylwadau'r Coleg ynghylch cynnwys y Gymraeg fel pwnc a gwaith ymchwil cyfrwng Cymraeg o fewn yr amod hwn.

Lle bo'r darparwr yn sefydliad sy'n gwneud gwaith ymchwil ac arloesi, mae Medr hefyd wedi cynnwys gofyniad yn y fersiwn ddrafft o Amod y Gymraeg i'r darparwyr hyn nodi yn eu strategaeth sut y byddant yn annog eu hymchwilwyr, gan gynnwys staff a myfyrwyr ymchwil, i ymgymryd â gwaith ymchwil a gweithgareddau arloesi sy'n cefnogi'r Gymraeg.

Nodwn fod y Coleg, yn ei nodyn cyngor ac mewn sylwadau pellach mewn ymateb i ail gam ymgynghoriad Medr ar system reoleiddio newydd, hefyd wedi argymell cryfhau'r iaith yn yr Amod mewn perthynas â gofynion y gweithlu. Mae'r geiriad presennol yn nodi

y dylai strategaeth darparwr ar y Gymraeg "ystyried pa gapasiti o fewn y gweithlu all fod ei angen i gynorthwyo mwy o ddysgwyr i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a Chymraeg fel pwnc". Wrth ddrafftio hwn, bu'n rhaid i ni ystyried yn ofalus sut y gall ysgogiadau rheoleiddiol Medr annog darparwyr i gynllunio eu gweithlu a gweithredu ar y gwaith cynllunio hwnnw mewn modd rhagweithiol, heb ymyrryd ym mhenderfyniadau eu cyrff llywodraethu.

Byddwn yn ystyried sylwadau ychwanegol y Coleg yng nghyd-destun ein hymateb i'r ymgynghoriad ac yn edrych i weld a oes geiriad amgen sy'n cryfhau'r disgwyliadau heb amharu ar ymreolaeth sefydliadol darparwyr.

**Pwynt Cyngor 11:** Mae'r Coleg yn disgwyl y bydd y Cynllun Cenedlaethol yn darparu fframwaith i ddarparwyr ar gyfer gosod targedau uchelgeisiol. Mae'r Coleg yn cynghori y dylid trafod hyn ymhellach maes o law mewn perthynas â monitro cynnydd y Cynllun Cenedlaethol.

**Penderfyniad:** Cytuno.

Mae Medr yn cytuno y dylai'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg Drydyddol ddarparu fframwaith ar gyfer gosod targedau er mwyn sicrhau bod darparwyr yn gwneud cynnydd parhaus ar hyd y continwwm iaith. Mae Medr hefyd yn cytuno â'r egwyddor o gyhoeddi adroddiadau cynnydd er mwyn sicrhau atebolrwydd a thryloywder. Ar y camau datblygu cynnar y mae'r Cynllun Cenedlaethol ar hyn o bryd. Bydd Medr yn ailystyried sylwadau cychwynnol y Coleg mewn perthynas â'r Cynllun Cenedlaethol yng nghyd-destun trafodaethau'r gweithgor.

Mae Medr hefyd yn cytuno â phwynt ehangach y Coleg, sef bod darparwyr addysg drydyddol i gyd yn dechrau o fannau gwahanol o ran y ffordd y maent yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn cynyddu'r galw am ddarpariaeth a gwaith ymchwil cyfrwng Cymraeg, a'r niferoedd sy'n cymryd rhan ynddynt. Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Coleg yn cydnabod bod angen i ddull rheoleiddio Medr ar gyfer y Gymraeg fod yn ddigon hyblyg i alluogi darparwyr i ymateb i'w sefyllfa bresennol drwy wneud cynnydd cadarnhaol ar hyd y continwwm iaith.

**Pwynt Cyngor 12**: Mae'r Coleg yn dymuno cydweithio â Medr i sicrhau lle bo modd bod prosesau monitro'r ddau gorff yn alinio er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar ddarparwyr ac osgoi dyblygu.

**Penderfyniad**: Cytuno.

Mae Medr yn cytuno i barhau â'i berthynas agos â'r Coleg o ran monitro cydymffurfiaeth darparwyr ag Amod y Gymraeg a gofynion rheoleiddio eraill sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg, er mwyn i'r Coleg allu rhybuddio Medr yn gynnar am unrhyw bryderon ynglŷn â

chydymffurfiaeth darparwyr. Mae hyn wedi cael ei adlewyrchu yn yr adran sy'n ymwneud â Monitro yn y fersiwn ddrafft o Amod y Gymraeg.

Gwneir rhagor o waith wrth baratoi i roi Amod y Gymraeg ar waith er mwyn dod o hyd i ffyrdd o leihau baich gweinyddol drwy sicrhau cysondeb rhwng prosesau monitro Medr a'r Coleg. Bydd Medr hefyd yn archwilio asesiadau blynyddol y Coleg fel math o dystiolaeth o gydymffurfiaeth.

**Pwynt Cyngor 13:** Mae'r Coleg yn cynghori Medr i ddarparu canllawiau atodol ar Amod y Gymraeg pan fydd y Cynllun Cenedlaethol wedi'i gyhoeddi.

**Pwynt Cyngor 14:** Mae'r Coleg yn cynghori y gall fod angen canllawiau ar ddatblygu darpariaeth yn unol â'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg hefyd.

**Penderfyniad:** Cytuno'n rhannol

Er bod Medr yn cydnabod y gall fod angen canllawiau atodol er mwyn helpu darparwyr i gydymffurfio ag Amod y Gymraeg, nid ydym am achub y blaen ar yr adborth a gawn drwy'r ymgynghoriad ffurfiol ar hyn o bryd. Bydd Medr yn ystyried yr angen am ganllawiau atodol ar ôl cael yr ymatebion i ail gam yr ymgynghoriad a thrafodaethau pellach gyda gweithgor y Cynllun Cenedlaethol.

Caiff unrhyw angen am ganllawiau ar ddatblygu darpariaeth yn unol â Fframwaith Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg ei ailystyried a'i drafod ymhellach gyda'r Coleg wrth i'r fframwaith newydd hwn ddatblygu.